DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 29 TACHWEDD 2018 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 29 NOVEMBER 2018, |

Fe'ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Heol Gerddi'r Orsedd, Caerdydd, CF10 3ND on Dydd Iau, 29 Tachwedd 2018 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.


**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW


Dydd Gwener, 23 Tachwedd 2018


Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch at eraill   Gwrthrychedd a priodoldeb   Anhunaoldeb a stiwardiaeth
Uniondeb   Dyletswydd i gynnal y gyfraith   Atebolrwydd a bod yn agored

Trwy dderbyn y Pecyn Agenda hwn yn electronig, rydych wedi arbed yr Awdurdod tua. £ 5.81 mewn costau argraffu

## GWE-DARLLEDU

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd

| Eitem | | Tua Amser | Max Amser |
|---|---|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>*I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | 4.30 pm | 5 mins |
| 2 | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau).* | | |
| 3 | **Cofnodion** *(Tudalennau 9 - 38)*<br><br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod ar 25 Hydfref 2018 fel rhai cywir.* | | |
| 4 | **Cwestiynau Cyhoeddus** *(Tudalennau 39 - 46)*<br><br>*Derbyn cwestiynau yr hysbyswyd amdanynt ymlaen llaw gan Aelodau'r Cyhoedd.* | 4.40 pm | 10 mins |
| 5 | **Deisebau**<br><br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor.* | 4.45 pm | 5 mins |
| 6 | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Derbyn cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.* | 4.50 pm | 5 mins |
| 7 | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau a Moeseg 2017/18** *(Tudalennau 47 - 70)*<br><br>*Derbyn yr Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg, Mr Richard Tebboth.* | 4.55 pm | 20 mins |
| 8 | **Datganiad Teirblwydd o'r Polisi Trwydded Gamblo** *(Tudalennau 71 - 126)*<br><br>*Adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol wedi'i gyfeirio i gael cymeradwyaeth y Pwyllgor Trwyddedu 6 Tachwedd 2018.* | 5.15 pm | 15 mins |
| 9 | **Gostyngiadau a Phremiymau'r Dreth Gyngor Eiddo Gwag** *(Tudalennau 127 - 134)*<br><br>*Cynnig y Cabinet* | 5.30 pm | 15 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10 | **Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Canol y Flwyddyn 2018-19** *(Tudalennau 135 - 160)*<br><br>***Ni chaiff Atodlenni B a C Atodiad 1 yr adroddiad hwn eu cyhoeddi oherwydd eu bod yn cynnwys gwybodaeth a eithrir fel y disgrifir ym Mharagraffau 14 ac 21 Rhestr 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Felly gallai fod angen penderfynu Eithrio'r Cyhoedd tra bod yr eitem hon yn cael ei thrafod.***<br><br>*Cynnig y Cabinet.* | 5.45 pm | 10 mins |
| 11 | **Datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelod Cabinet** *(Tudalennau 161 - 188)*<br><br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | 5.55 pm | 45 mins |
| | **Egwyl** | | |
| **Hysbysiad o Gynnig** | | | |
| 12 | **Cynnig 1**<br><br>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Dilwar Ali<br><br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Norma Mackie<br><br>**<u>Cefndir</u>**<br><br>Gwybyddir bod Caerdydd yn ddinas sy'n hoff iawn o gŵn ac mae llawer o'n trigolion yn talu llawer o arian am y ci bach o'u dewis, weithiau miloedd o bunnoedd. Mae'r hoffter hwn am gŵn yn cael ei gamdrin gan berchenogion fferm cŵn bach anghyfreithlon sy'n parhau i fridio cŵn mewn cyflyrau gwael iawn ac sy'n parhau i'w bridio. Maent hefyd yn creu cŵn bach sy'n sâl, sy'n cael eu cymryd o'u mamau'n rhy gynnar, sydd yn aml yn eu hachosi i gael problemau cymdeithasu. Maent yn costio llawer o arian i'w perchenogion newydd o ran biliau milfeddygon er yn aml yn y pen draw mae'r ci bach yn marw neu'n anodd ei reoli. Roedd Lucy yn un o'r cŵn bridio hyn a achubwyd o fferm cŵn bach ac mae Lucy's Law yn ymgyrch i wahardd trydydd partïon rhag gwerth cŵn bach i helpu i stopio hyn.<br><br>Mae Cartref Cŵn Caerdydd, gwasanaeth a redir gan Gyngor Caerdydd, yn gorfod rhoi cartref i'r cŵn bach hyn a thrio dod o hyd i gartref newydd parhaol iddynt. Rydym yn gwybod bod nifer cynyddol o ffermydd cŵn bach anghyfreithlon mewn ardaloedd yng ngorllewin Cymru yn defnyddio trydydd partïon i werthu'r cŵn bach a bod cŵn | 7.00 pm | 30 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bach yn cael eu gwerthu yng Nghaerdydd.<br><br>Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i wahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn bach yn Lloegr ac mae tri Aelod Seneddol yn gofyn i Lywodraeth Cymru i wneud hyn hefyd oherwydd heb Lucy's Law, bydd cŵn bridio ffermydd cŵn bach anghyfreithlon a'u cŵn bach yn parhau i ddioddef y tu ôl i ddrysau wedi'u cais dan ddwylo pobl sy'n rhoi elw cyn llesiant anifeiliaid.<br><br>**<u>Cynnig</u>**<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Arweinydd Cyngor Caerdydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, yn cefnogi'r galw am gamau gweithredu brys i wahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn bach. | | |
| **13** | **Cynnig 2**<br><br>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Lyn Hudson<br><br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Oliver Owen<br><br>Mae'r Cyngor hwn wedi ymrwymo i gefnogi dinasyddion a theuluoedd sy'n byw gyda demensia ac i wneud Caerdydd yn ddinas sy'n deall demensia gydnabyddedig, lle y gall pobl y mae demensia'n effeithio arnynt ffynnu a mwynhau bywyd yn ddiogel gan wybod bod y gymuned ehangach yn deall ac yn cefnogi eu hanghenion.<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r canlynol:<br><br>• Bod bod yn gyfarwydd â lleoliad a gofal yn hanfodol i lawer o bobl sy'n dioddef o ddemensia a bod canolfan dydd leol yn helpu i atal dinasyddion rhag cael eu drysu'n ddaearyddol.<br><br>• Bod canolfan dydd gyda gwasanaethau demensia'n codi ymwybyddiaeth o'r mater yn y gymuned leol.<br><br>• Bod canolfannau dydd a ariennir gan y Cyngor ar hyn o bryd wedi'u lleoli'n logistaidd yn nwyrain a gorllewin y ddinas. Nid oes unrhyw lwybrau bws uniongyrchol o wardiau mwyaf gogleddol Caerdydd i ganolfannau dydd cyfredol a gall trafnidiaeth gymunedol VEST gymryd hyd at awr mewn traffig trwm. Nid oes gan y canolfannau dydd cyfredol, er eu bod yn wych, y capasiti i fodloni'n ddigonol anghenion trigolion hŷn ledled Caerdydd. | 7.30 pm | 30 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae’r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i greu canolfan dydd ar wahân a ariennir gan y Cyngor sy’n cynnig gwasanaethau demensia yng ngogledd dinas Caerdydd, lle mai dinasyddion yw'r canolbwynt mwyaf, erbyn diwedd cyfnod y Cyngor hwn yn y swydd yn 2022 a llunio amserlen ar gyfer achredu Caerdydd yn Ddinas sy’n Deall Demensia. | | |
| **14** | **Cwestiynau Llafar**<br><br>*Cwestiynau ar lafar i’r Arweinydd, Aelodau’r Cabinet; Cadeiryddion y Pwyllgor a/neu Aelodau enwebedig o’r Awdurdod Tân.* | 8.00 pm | 60 mins |
| **15** | **Materion Brys** | 9.00 pm | 5 mins |
| **Materion y Cyngor nas Gwrthwynebir** | | | |
| **16** | **Bws Caerdydd - Penodi Cyfarwyddwyr Anweithredol Annibynnol** *(Tudalennau 189 - 194)*<br><br>*Adroddiad y Prif Weithredwr* | 9.05 pm | 5 mins |
| **17** | **Penodi Llywodraethwyr Ysgolion yr Awdurdod Lleol** *(Tudalennau 195 - 200)*<br><br>*Cymeradwyo argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol 19 Tachwedd 2018.*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.* | | |
| **18** | **Penodi Cynrychiolwyr y Cyngor i Gyrff Allanol** *(Tudalennau 201 - 204)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol.* | | |
| **19** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a’r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* | | |